

**CYNGOR TREF CAERFYRDDIN**  
**CYFARFOD MISOL Y CYNGOR**  
**CYNHALIWDYD AR 28 CHWEFROR 2024 AM 7.30YH**

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Ddinesig San Pedr yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Maer, Cyng. Wyn Thomas, oedd yn llywyddu dros y cyfarfod.

**PRESENNOL:** Cynghorwyr: Tom Defis, Dai Evans (Fideo), Peter Hughes Griffiths, Andy King (Fideo), Alun Lenny (Fideo), Arwel Lloyd (Fideo), Ioan Matthews, Russell Sparks (Fideo), Jeff Thomas, Wyn Thomas, Aled Williams, Barry Williams.

Emma Smith – Clerc y Dref  
 Wendy Dickson – Dirprwy Clerc y Dref  
 Catrin Llwyd - Cyfieithydd (Fideo)

Croesawodd y Maer, y Cyng. Wyn Thomas y Cyng. Aled Williams i'w gyfarfod Cyngor cyntaf.

**343. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth John, Angharad Jones Leefe, Miriam Moules, Emlyn Schiavone a Luned Voyle.

**344. Datgan Buddiannau**

Y Cyng. Russell Sparks i Eitem 352 fel aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

Y Cyng Tom Defis i Eitem 352 (i) oherwydd agosrwydd y datblygiad i'w gartref.

Y Cyng Alun Lenny i Eitem 356 (ii) oherwydd ei fod yn Aelod Cabinet dros Adnoddau yng Nghyngor Sir Caerfyrddin.

**345. Cwestiynau gan aelodau**

Dim

**346. Cwestiynau gan y cyhoedd**

Dim

**347. Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 31ain o Ionawr 2023**

Cynigiwyd gan y Cyng. Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyng. Russell Sparks, a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 31<sup>ain</sup> o Ionawr 2024 fel cofnod cywir.

### **348. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6<sup>fed</sup> o Chwefror 2024**

Cynigiwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths eiliwyd gan y Cyng. Barry Williams, a **PHENDERFYNWYD** fod cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar y 6<sup>ed</sup> o Chwefror 2024 yn cael eu derbyn fel cofnod cywir.

### **349. Materion yn codi o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol**

- i. Tud 94: Eitem 328 – Ystyried y rheol ynghylch â lliwiau cerrig beddi yn y Fynwent
- ii. Tud 94: Eitem 329 – Adolygiad o gau giât ym Mharc Penllwyn
- iii. Tud 94: -Eitem 333 – Polisi Asesu Risg

Penderfynodd aelodau y dylid **CYMERADWYO'R** argymhellion fel a nodwyd yng nghofnodion Pwyllgor Dibenion Cyffredinol ar gyfer y 6<sup>ed</sup> o Chwefror 2024.

### **350. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 8<sup>fed</sup> o Chwefror 2024**

Cynigiwyd gan y Cyng. Tom Defis eiliwyd gan y Cyng. Andy King, a **PHENDERFYNWYD** fod cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar y 8<sup>fed</sup> o Chwefror 2024 yn cael eu derbyn fel cofnod cywir.

### **351. Materion yn codi o'r Pwyllgor Cyllid**

- i. Tud 97: Eitem 341 – Polisi asesu risg a rheoli risg 2024/2025

Penderfynodd aelodau y dylid **CYMERADWYO'R** argymhelliad fel a nodwyd yng nghofnodion Pwyllgor Cyllid ar gyfer y 8<sup>fed</sup> o Chwefror 2024.

### **Adroddiad Clerc y Dref**

**NODWYD** nad oedd y Cyngorydd Russell Sparks wedi cymryd rhan mewn trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch ceisiadau cynllunio oherwydd ei rôl fel aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

### **352. Cynllunio**

- i. **PL/07186** - Cynnig i adeiladu sied storio amaethyddol - Mile End, Caerfyrddin, SA31 3QL – MAE'R AELODAU YN DYMUNO CYFLWYNO **DIM BARN** AR Y CAIS HWN.
- ii. **PL/07266** - Trosi Siop Manwerthu Llawr Gwaelod yn Fflat Preswyl Hunangynhwysol, gyda newidiadau i'r ffasâd blaen er mwyn hwyluso mynediad i'r Fflat Breswyl Llawr Cyntaf Presennol - 100 Heol y Prior, Caerfyrddin, SA31 1NB – **CEFNOGI'R CAIS**

iii. **Hysbysiad cyn cynllunio -**

Adeiladu 12 Uned Ddiwydiannol (Defnydd B1 a B8)

Ar Dir Rhwng A40 a Rheilffordd, Llanllwch, Caerfyrddin

Mae gan aelodau'r cyhoedd, cyrff statudol, a thrydydd partiïon eraill, gyfnod o 28 diwrnod o leiaf i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, yn yr achos hwn, heb fod yn hwyrach na **18 Mawrth 2024**.

**CEFNOGODD YR AELODAU Y CAIS.**

iv. Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin Diwygiedig 2018-2033. Ymgynghori pellach ar y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd. Fel y gwyddoch efallai, rydym yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig ac, fel rhan o'r broses hon, mae'n ofynnol inni asesu ei effeithiau posibl ar bobl, yr amgylchedd, a'r economi, ymhlith materion eraill. Felly, hoffwn eich hysbysu ein bod wedi cyhoeddi'r asesiadau canlynol ar gyfer ymgynghoriad:

- Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig (ISA)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) .

**NODODD** yr Aelodau y cynllun.

**353. Materion Prifyrdd**

Trafododd yr Aelodau yn helaeth y cynnig i gyflwyno Terfyn Cyflymder 40 M.Y.A ar y ffordd o Drevaughan i'r Plough and Harrow. Ar gynnig y Cyng. Alun Lenny, cytunwyd y byddai'r Cyngor yn **gwrthwynebu'r** gostyngiad arfaethedig ar y darn o ffordd y tu hwnt i'r ardal breswyl. Cafodd y cynnig hwn ei eilio gan y Cyng. Andy King a phleidleisiodd yr aelodau 6 yn erbyn 3 o blaid gyda dau ymataliad.

**354. Materion Trwyddedu**

Math o Gais: **Cais Mân Amrywiad**

Enw a Chyfeiriad yr Eiddo: **Lidl, Parc y Brodyr, Caerfyrddin, SA31 3AW**

Manylion y cais: **Newid i osodiad mewnol yr adeilad Newid amod ar y Drwydded Safle.**

Cyfnod ymgynghori yn dechrau: **28/02/2024** Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau ynghylch y cais hwn o fewn **10 diwrnod gwaith** i ddyddiad cychwyn yr ymgynghoriad uchod – **DIM GWRTHWYNEBIAD**

Math o Gais: **Cais am Fân Amrywiad**

Enw a Chyfeiriad yr Eiddo: **Grain, 11-12 Stryd y Frenhines, Caerfyrddin, SA31 1JR.**

Manylion y cais: **Cais i ychwanegu werthiant alcohol i yfed oddi ar y safle 12:00 – 22:00.**

Cyfnod ymgynghori yn dechrau: **23/02/2024**. Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau ynghylch y cais hwn o fewn **10 diwrnod gwaith** i ddyddiad cychwyn yr ymgynghoriad uchod - **DIM GWRTHWYNEBIAD**.

**355. Enwebu Arweinwyr Cyngor Tref ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2024/25**

- i. Ar gynnig y Cyng. Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng. Jeff Thomas, **PENDERFYNWYD** y bydd y Cyng. Emlyn Schiavone yn cael ei ethol fel Maer Tref Caerfyrddin 2024/2025.
- ii. Ar gynnig y Cyng. Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng. Tom Defis, **PENDERFYNWYD** y bydd y Cyng. Heledd ap Gwynfor yn cael ei ethol fel Dirprwy Faer 2024/2025.
- iii. Ar gynnig y Cyng. Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths, **PENDERFYNWYD** y Cyng. Russell Sparks yn Siryf y Dref ar gyfer 2024/2025.

**356. Gohebiaeth**

- i. Rhannodd y Clerc wybodaeth a gafwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn hyrwyddo gwaith Pwyllgorau Craffu yn Sir Gaerfyrddin ac i wahodd mwy o gyfranogiad gan y Cyngor Tref.

**NODODD** yr Aelodau yr ohebiaeth.

- ii. Dywedodd y Clerc fod cais wedi dod i law oddiwrth Cyfarwyddwyr y Ganolfan Fagu yng Nghaerfyrddin i Aelodau ddod yn rhan o grŵp llywio newydd i helpu i sicrhau dyfodol y Ganolfan. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y les ar yr adeilad yn y broses o gael ei hadolygu a chytunwyd y byddai penderfyniad yn cael ei ohirio hyd nes y bydd canlyniad y trafodaethau hyn.

**357. Adroddiad y Maer****Rhestr o Alwadau'r Maer hyd at 28<sup>ain</sup> o Chwefror 2024**Chwefror

10	Plant Dewi – Bore Coffi
15	Capel y Priordy – Gweddi ar gyfer gwasanaeth Gŵyl Dewi Opera Ieuencid Caerfyrddin - Perfformiad of 'Our House'
16	Pwyllgor Ras y Maer
25	Eglwysi a Chapeli Cymraeg Tref Caerfyrddin - Gwasanaeth Gŵyl Dewi

**NODODD** yr aelodau yr adroddiad.

**358. Adroddiadau gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol**

- i. Nododd y Cyng. Barry Williams ei fod yn bresennol mewn digwyddiad "Cwrdd â'ch Byddin" ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Roedd y digwyddiad yn gyfle i ymgysylltu â phersonél y Fyddin a dysgu am fywyd o fewn ac ar ôl y Fyddin.

- ii. Nododd y Cyng. Peter Hughes Griffiths ei bresenoldeb mewn cyfarfod o Bwyllgor Gefeillio Lesneven a dywedodd wrth aelodau y byddai aelodau o bwyllgor Lesneven yn ymweld â Chaerfyrddin tua diwedd mis Mai.
- iii. Atgoffodd y Cyng. Alun Lenny yr Aelodau o Orymdaith Dydd Gŵyl Dewi ar yr 2il o Fawrth.
- iv. Dywedodd y Cyng. Russell Sparks wrth aelodau ei fod wedi mynychu ei gyfarfod cyntaf yn Oriel Myrddin fel aelod o'r bwrdd. Dywedodd hefyd ei fod wedi mynychu ei gyfarfod cyntaf fel llywodraethwr ysgol ar gyfer Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth yng Nghaerfyrddin.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:23 yh**